



# YR ACADEMI GYLLID



# RHAGLEN PRENTISIAETHAU CYLLID

Mawrth 2022

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pwy ydym ni	4
Ydych chi am wneud gwahaniaeth?	5
Beth yw Prentisiaeth?	6
Gwybodaeth am y Rhaglen	7
Yr hyn y Gallwch chi ei Ddisgwyl	8
Y Broses Ymgeisio	9
Syniadau ac Awgrymiadau	10

# Cyflwyniad

Wrth wraidd GIG Cymru mae pobl, cleifion a staff. Rydym am gael y gorau i'n poblogaeth. O fewn y sefydliadau sy'n rhan o GIG Cymru, mae ein staff cyllid wedi ymrwymo i gefnogi ein cydweithwyr gofal iechyd a chydweithwyr gweithredol i ddarparu'r gwerth a'r gofal gorau sy'n deillio o reolaeth ariannol ragorol ar bob lefel.

Mae gwahanol lwybrau mynediad i ymuno â Chyllid GIG Cymru drwy ein cynlluniau prentisiaeth a graddedigion yn ogystal â throsolwg o weddill ein rhaglen Llif Talent, sy'n cynnig cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth dros ehangder gyrfa.

Byddwch yn cael cymhwyster ariannol ac yn dysgu am gyllid y sector cyhoeddus trwy'r rhaglen prentisiaeth.

Ein huchelgais yw creu Swyddogaeth Cyllid sy'n:

**“Addas i Gymru ond sy'n debyg i'r gorau yn unrhyw le”.**



**“Ni allaf argymhell y brentisiaeth hon ddigon. Pe byddai'n well gennych ddechrau eich gyrfa 3 blynedd yn gynharach na'r brifysgol, cael cymwysterau a dechrau gweithio yn y diwydiant cyllid, yna byddech yn cael trafferth dod o hyd i gyfle gwell na hyn.”**

Sam Stephens, Prentis

# Pwy ydym ni

Mae Academi Gyllid GIG Cymru yn gydweithrediad gwirfoddol gan bob Cyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru a'i uchelgais ar y cyd yw datblygu swyddogaeth Cyllid y GIG sydd “fwyaf addas i Gymru ond sy'n debyg i'r gorau yn unrhyw le”.

Caiff ein nod uchelgeisiol ei gyflawni trwy naw rhaglen rhyngddibynnol, ac mae pob un wedi'i noddi gan Gyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru unigol:

- Datblygu ein rhaglenni Pobl drwy Ddysgu a Datblygu a Llif Talent
- Arloesi ac ychwanegu gwerth drwy raglenni Arloesedd a Gwerth
- Llywio Rhagoriaeth drwy ein rhaglenni Digidol, Llywodraethu a Rhagoriaeth
- Gweithio mewn Partneriaeth trwy ein rhaglenni Partneriaethau a'r Economi Sylfaenol.

Rydym yn cyflawni'r cydweithrediad hwn trwy Fwrdd yr Academi Gyllid y mae pob Cyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru yn rhan ohono, ynghyd â sefydliadau partner allweddol. Cefnogir y Bwrdd gan Gyfarwyddwr a thîm rhaglen bach.

Ethos yr Academi Gyllid yw bod pob aelod o staff sy'n gweithio i Gyllid GIG Cymru yn “aelod” o'r Academi ac yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfrannu at wella'r swyddogaeth gyllid. Mae gennym ystod o weithgareddau i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth ar draws sbectrwm y gymuned gyllid sy'n hyrwyddo'r neges fod arweinyddiaeth bersonol yn bwysig ar bob lefel.



# Ydych chi am wneud gwahaniaeth?

Rydym yn falch o gynnig cyfleoedd i'n holl staff cyllid i ddatblygu'r sgiliau, y priodoleddau a'r profiadau sydd eu hangen i weithredu hyd eithaf eu gallu. Ein rhaglenni Llif Talent lefel mynediad yw ein cynlluniau prentis a chynlluniau graddedigion rhagorol ac ar gyfer staff presennol sy'n awyddus i ddatblygu i swyddi uwch o fewn cyllid GIG Cymru, mae'r rhaglenni arweinyddiaeth Llif Talent diweddarach yn cynnig cymorth gydag addysg, profiad, mentora a hyfforddi i wella'ch sgiliau i fynd â'ch gyrfa i'r lefel nesaf.

Wrth wraidd y rhaglen Prentisiaethau, mae creu profiad carfan gyda chydweithwyr o bob rhan o Gyllid GIG Cymru. Mae ein Carfan gyntaf i'w gweld isod ac maent wedi dechrau'r Rhaglen Prentisiaethau ym mis Medi 2021:



Llun: Carfan 2021

*“Penderfynais ddilyn gyrfa ym maes cyllid ar ôl gweithio ym maes manwerthu am rai blynyddoedd, ac roeddwn eisiau dechrau newydd mewn swydd a fyddai'n rhoi cyfleoedd i mi ddatblygu a symud ymlaen yn fy ngyrfa. Roedd prentisiaeth yn opsiwn perffaith gan fy mod eisiau gallu aros mewn cyflogaeth llawn amser wrth gael y cymwysterau perthnasol.”*

Drew Driscoll, Prentis



# Beth yw Prentisiaeth?



**Mae prentisiaeth yn cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio.**

Fel prentis byddwch yn:

- gweithio ochr yn ochr â staff profiadol
- datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r maes
- ennill cyflog a chael tâl gwyliau
- cael amser i astudio (un diwrnod yr wythnos fel arfer)
- cynyddu eich cyflog posibl
- mae Prentisiaethau'n cymryd 3 blynedd i'w cwblhau

**Hoffech chi weithio i gyllid GIG Cymru, wrth hefyd gael profiad o fywyd mewn cyrff sector cyhoeddus eraill sy'n cymryd rhan?**

Gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, rydym wedi datblygu rhaglen Prentisiaethau Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan fel llwybr gyrfa i faes cyllid y sector cyhoeddus.

Byddwch yn cael profiad mewn lleoliadau amrywiol yn y sector cyhoeddus, gan gael cymhwyster AAT a gydnabyddir gan y diwydiant wrth ennill cyflog.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r rhaglen hon gymaint fel y byddwch yn parhau â'ch gyrfa ym maes cyllid GIG Cymru.

# Gwybodaeth am y Rhaglen

## Ennill wrth ddysgu!

Mae'r rhaglen tymor penodol tair blynedd yn cynnig hyfforddiant proffesiynol gyda Chymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT) o lefel 2 i lefel 4, wedi'i ategu â hyfforddiant proffesiynol pellach. Mae'r rhaglen ddysgu yn cynnwys:

### Trafodion

- Cyfrifon Rheoli
- Cyfrifon Ariannol

### Trawsnewidiol

- Costio, Cyfalaf a Chomisiynu a Gwerth

### Rhoi Dysgu ar Waith

- Cymorth i Bartneriaid Busnes



There is the possibility of a 6 Month placement with other public organisations such as Gwent Police, Audit Wales or Local Government.

**Os oes gennych** uchelgais fawr i weithio yn un o'r rolau anoddaf mewn sefydliadau modern, os ydych o ddifrif am ddilyn gyrfa ym maes rheoli y GIG, os nad ydych wedi bod i'r brifysgol ond yn meddu ar y meini prawf hanfodol a nodir yn manyleb y person wrth hefyd gymhwyso'ch angerdd, eich ysgogiad a'ch bod yn benderfynol o wneud gwahaniaeth, **yna mae gennym ddiddordeb ynoch chi!**

## Enghreifftiau o'r hyn Rydym yn Chwilio Amdano

Tair Lefel 'A' gradd C neu'n uwch (gall gynnwys Bacc Cymru) neu gymhwyster cyfatebol

O leiaf 5 TGAU (Gradd A\*-C), gan gynnwys Mathemateg (B)

Sgiliau dadansoddi a datrys problemau da.

Sgiliau gweithio mewn tîm da - yn weithgar ac yn frwdfrydig, ond yn hyderus i weithio ar eich pen eich hun

# Yr hyn y gallwch chi ei ddisgwyl:

Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cymorth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial.

Fel Prentis Cyllid, bydd y rhaglen yn sicrhau eich bod yn gwneud eich gorau glas ac yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau rheolaeth ariannol ac arweinyddiaeth wrth astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifyddu proffesiynol trwy brofiad datblygu dwys, gan ddysgu i weithio ochr yn ochr â chlinigwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.


Byddwch yn derbyn cefnogaeth ddatblygu gan y sefydliad sy'n lletya a'r Academi Gyllid trwy gydol y rhaglen dair blynedd gan gynnwys trafodaethau ynghylch perfformiad ac adborth yn rheolaidd i sicrhau eich bod yn dysgu ac yn datblygu eich sgiliau rheolaeth ariannol "yn y swydd".

Yn ystod y contract cyflogaeth tair blynedd, byddwch yn datblygu sgiliau ac arbenigedd ariannol personol a phroffesiynol penodol ar gyfer rolau yn y dyfodol. Bydd y sgiliau hyn yn cael eu datblygu trwy'r profiad o reolaeth ariannol lwyddiannus wrth wneud y rolau a byddwch yn cael eich cefnogi i reoli eich datblygiad personol eich hun trwy lenwi cofnodion dysgu ac adolygiadau cynnydd. Bydd y rhaglen yn darparu gweithdai datblygu sgiliau, astudio ar gyfer cymhwyster technegydd cyfrifyddiaeth proffesiynol ffurfiol a mentor a chyfaill a fydd yn helpu gyda'ch datblygiad a'ch twf personol.

**Buddion hael i weithwyr**

**Lefalau AAT 2-4**

**Gweithio o fewn rhwydwaith o brentisiaid**




**Mynediad i ddigwyddiadau cymunedol myfyrwyr cyllid GIG Cymru**

**Profiad ledled y sector cyhoeddus ym maes cyllid**



# Ein Proses Ymgeisio

Rydym yn recriwtio yn y gwanwyn/dechrau'r haf gyda dyddiad dechrau y mis Medi canlynol. Mae nifer o rannau i'n proses ymgeisio ac mae angen i chi lwyddo ym mhob un ohonynt er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf.



## Cam 1: Ffurflen gais ar-lein

Bydd angen i chi wneud cais drwy gwblhau ffurflen gais y GIG ar-lein, drwy wefan Trac.Jobs (mwy o wybodaeth [yma](#)). Wrth wneud cais am y swydd hon, darllenwch y swydd ddisgrifiad a manyleb y person yn ofalus. Dylech chi deilwra'ch cais i ofynion y swydd.

## Cam 2: Cyfweiliad a chyflwyniad

Bydd ein cyfweiliadau yn cynnwys panel o weithwyr proffesiynol ym maes cyllid o GIG Cymru a byddant yn ein helpu i ddarganfod rhagor am eich cryfderau, eich ymddygiadau a'ch set sgiliau.

Cynhelir cyfweiliadau ym mis Mai ar ôl cwblhau cam 1 yn llwyddiannus yn y broses.

## Cynnig: Llongyfarchiadau

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig lle ar y rhaglen tair blynedd fel Prentis Cyllid GIG Cymru, yn amodol ar wiriadau cyn cyflogaeth a gwiriadau o gymwysterau a chymwyseddau eraill.



# Cyngor ac Awgrymiadau

## Ydy'r rôl yn addas i chi?

Nid oes angen gwybodaeth flaenorol o'r GIG nac o'r maes cyllid arnoch, ond gall fod yn ddefnyddiol i chi wneud ychydig o ymchwil gefndirol cyn gwneud cais. Ni fyddwn yn profi unrhyw un ar hyn, wrth gwrs, ond mae'n arfer da darganfod beth mae Adran Gyllid GIG Cymru yn ei wneud a pham, er mwyn gwirio bod y rôl yn addas i chi ac er mwyn helpu i ddeall pam rydym yn chwilio am gymwysterau a gwerthoedd penodol. Dyma rai awgrymiadau i'ch rhoi chi ar y trywydd iawn.

- **y busnes iechyd** – ceisiwch ddarllen am faterion cyfredol yn ymwneud â'r GIG, gan gynnwys effeithlonrwydd iechyd a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Yn ogystal, efallai y byddwch yn dymuno siarad â theulu neu ffrindiau i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu fel staff neu'n eu derbyn fel cleifion.
- **beth mae cyfrifydd y GIG yn ei wneud** – mae llawer o rolau amrywiol ac mae ein rhaglen i raddedigion yn fwy na hyfforddiant cyllid technegol. Darllenwch ein straeon, edrychwch ar rolau cyllid ar yrfaeodd GIG Cymru, neu edrychwch ar Google am Bartneriaeth Busnes Cyllid.
- **gofynion ac arholiadau hyfforddiant cyllid technegol** - mae'r cymhwyster a gynigir fel rhan o'n rhaglen brentisiaethau yn cael ei gyflawni drwy AAT - bydd eu gwefan yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am eu cymhwyster a'r cymorth y maent yn ei roi i fyfyrwyr.



*Mae'r rhaglen  
prentisiaethau yn  
"Amrywiol, yn Gefnogol ac  
yn Ysgogol".*

Zuhair Mateen, Prentis

# Cyngor ac Awgrymiadau yn parhau

## Y cais ar-lein

- **Cynlluniwch ymlaen llaw** – Peidiwch â gadael eich cais tan y funud olaf.
- Ymgylfarwyddwch â'r **broses ymgeisio** ar NHS Jobs/Trac.
- Gwiriwch eich bod yn **gymwys i wneud cais** - a oes gennych dair Lefel A (A\*-C) neu gymhwyster cyfwerth ac o leiaf 5 TGAU (Gradd A\*-C), gan gynnwys Mathemateg (B).
- Darllenwch y swydd ddisgrifiad a manyleb y person yn fanwl, a sicrhewch fod eich **tystiolaeth** yn dangos i ni sut rydych chi'n bodloni gofynion y rôl.
- Ysgrifennwch yn glir ac yn eich geiriau eich hun. Byddwch yn gryno ond peidiwch â hepgor pethau pwysig – **byddwch yn synhwyrol wrth ddefnyddio'r gofod.**
- **Gwiriwch** i sicrhau eich bod wedi cwblhau popeth ac nad oes unrhyw gamgymeriadau sillafu na gramadeg. Yn ogystal, gallech ystyried darllen eich ymatebion ar lafar i weld a ydyn nhw'n gwneud synnwy'r i chi.
- Os ydych chi'n llwyddo i gyrraedd y rownd nesaf, ymatebwch **yn brydlon** i e-byst a phroffion ar-lein, a gwiriwch eich post sothach a rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn.

"Paratowch eich hun trwy ymchwilio i'r rolau sy'n ofynnol fel rhan o'r swydd a dangoswch frwdfrydedd am y cyfle."

Garin Meredith, Prentis



# Diddordeb?

A ydych eisiau gwybod mwy am ein rhaglen prentisiaethau, neu ydych chi'n teimlo'n barod i wneud cais? Edrychwch nawr i'n wefan

<https://academigyllid.gig.cymru/gyrfaoedd-cyllid-yn-gig-cymru/rhaglen-prentisiaeth-cyllid/>

## CYSYLLTWCH Â NI

Oes gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am Academi Gyllid GIG Cymru a'r gwaith a wnawn? Dewch o hyd i ni drwy'r manylion canlynol:

Website: <https://academigyllid.gig.cymru/>

Email: [finance.academy@wales.nhs.uk](mailto:finance.academy@wales.nhs.uk)



@nhs\_wales\_finance



NHS Wales  
Finance Academy